**EITEM AR YR AGENDA: 9**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**16 Rhagfyr 2013**

**CYLLIDEB DDRAFFT 2014-15**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## DIBEN YR ADRODDIAD

1 Cyflwyno cyllideb ddrafft 2013-15 i'r Aelodau i'w chymeradwyo.

## CYFLWYNIAD

2 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cynigion i'r Awdurdod ynglŷn â chyllideb ddrafft 2014-15, y rhagolygon ar gyfer 2015-16 a 2016-17, ac mae'r papurau atodedig yn nodi'r canlynol:-

(i) y gyllideb refeniw ddrafft (Atodiad A);
(ii) y cyfraniadau dros dro sydd eu hangen gan yr awdurdodau cyfansoddol (Atodiad B);
(iii) y rhaglen gyfalaf ddraff (Atodiad C).

3 Nid yw Strategaeth Flynyddol Rheoli'r Trysorlys a'r Dangosyddion Ariannol wedi eu cynnwys oherwydd byddant yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio, sef y pwyllgor sydd wedi cael y gorchwyl o sicrhau bod craffu effeithiol yn digwydd ar strategaeth rheoli'r trysorlys a'r polisïau. Ar sail ei ganfyddiadau, bydd yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub.

## CEFNDIR

4 Yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 16eg Medi, cytunodd yr Aelodau i gefnogi amcanion gwella drafft yr Awdurdod ar gyfer 2014-15 i'w cyhoeddi at ddiben ymgynghori. Y ddogfen hon yw'r ymrwymiadau i'r cyhoedd o ran darparu gwasanaethau, a'r prif amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod yw cyrraedd y targed cyfredol o gynnal 30,000 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref

a gwneud y gorau o ofal tân ac achub yng Ngogledd Cymru drwy ganfod opsiynau gwahanol i'r system RDS. Y disgwyl yw na fydd costau uniongyrchol ychwanegol i'r Awdurdod o gyflawni'r amcanion hyn ond mae pwysau eraill ar yr Awdurdod yn golygu y byddai cynnal gwasanaethau ar y lefel gyfredol yn golygu cynnydd yn y ddarpariaeth gyllidebol.

5 Am y tair blwyddyn ariannol ddiwethaf, mae'r Awdurdod wedi gwneud arbedion o £2.4 miliwn drwy leihau'r gofyniad net o ran y gyllideb 1% ac ymgorffori unrhyw godiadau megis dyfarniadau cyflog, costau cyllido cyfalaf a chynyddiadau chwyddiannol cyffredinol. Er mwyn cael yr arbedion hyn, mae'r Awdurdod wedi cyflawni mewn perthynas â nifer o opsiynau a ddewiswyd gan yr Aelodau, gan gynnwys gwneud newidiadau i'r system gylchrestru; ailstrwythuro rheolwyr; adolygu'r gofal peiriannau ALP; staffio Diogelwch Tân Cymunedol; a staffio Gwasanaethau Cefnogol. Yn ei gyfanrwydd, mae'r gweithlu wedi gostwng 9% dros y cyfnod hwn, ond er gwaethaf y gostyngiadau hyn mae'r Awdurdod yn parhau i lwyddo i gyflawni ei amcanion.

6 Mewn cyfarfod arbennig o'r Awdurdod Tân ar 5 Rhagfyr 2013 rhoddwyd yr opsiynau sydd ar gael i'r Aelodau ar gyfer gosod cyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cytunodd yr Aelodau mai'r flaenoriaeth oedd cynnal y lefel gyfredol o wasanaethau ac i gyflawni mewn perthynas â'r amcanion sydd yn y Cynllun Gwella. Fodd bynnag, oherwydd effaith y setliad llywodraeth leol a'r lleihad yn y cyllid i'r awdurdodau cyfansoddol, cyflwynwyd opsiwn i'r Aelodau a fyddai'n eu galluogi i osod cyllideb wedi ei rhewi ond gan gynnal lefelau'r gwasanaeth.

7 Er mwyn gosod cyllideb wedi ei rhewi, byddai'n rhaid cwrdd ag unrhyw bwysau chwyddiannol yn 2014-15 o adnoddau eraill. Cafodd yr Aelodau y dewis o ddefnyddio cronfeydd untro i danategu'r gyllideb am flwyddyn. Bydd y rhan fwyaf o'r gronfa yn cael ei neilltuo o'r newid yn y dull o ariannu'r ffioedd ar gyfer prosiect Wrecsam, sef £860k.

8 Cytunwyd mai dim ond am flwyddyn y byddai'r opsiwn hwn yn gynaliadwy, a chytunodd yr Aelodau y dylai Gweithgor y Cynllun Gwella, am y flwyddyn ddilynol, ystyried y cydbwysedd rhwng pwysau ar y gyllideb, darparu gwasanaethau a'r risg i'r cyhoedd.

**GWIRIONEDDOL – 2012-13**

9 Mae'r gwariant gwirioneddol yn 2012-13 wedi ei gynnwys yn y golofn gyntaf yn yr atodiad er mwyn ei gwneud yn haws i gymharu gyda'r gyllideb gyfredol a'r gyllideb arfaethedig. O dan gostau gweithwyr, mae un gwahaniaeth nodedig rhwng gwariant gwirioneddol 2012-13 a'r cyllidebau ar gyfer Staff Lifrai – Amser Cyflawn. Mae hyn oherwydd ailstrwythuriad o ganlyniad i'r newidiadau i'r system gylchrestru. Roedd gwariant gwirioneddol y Prif Swyddogion yn llai na chyllidebau'r flwyddyn ddilynol oherwydd ymddeoliad deiliad un o'r swyddi ac na lenwyd y swydd tan yn ddiweddarach. Mae'r gwariant ar Staff Lifrai – Rhan Amser yn llai na'r cyllidebau cyfredol oherwydd bod llai o staff ar y system RDS. Ar hyn o bryd, mae'r gofal yn rhan o'r Adolygiad o Ofal Tân mewn Ardaloedd Gwledig ac mae'r cyllidebau wedi cael eu cadw ar eu lefel gyfredol hyd nes y bydd yr adolygiad wedi ei gwblhau. Roedd y costau Cyfathrebu yn is na'r gyllideb gyfredol a'r cyllidebau yn y dyfodol oherwydd newidiadau mewn contractau rhenti llinellau a'r ffaith na ddaw effaith lawn y costau Firelink tan y flwyddyn ddilynol. Mae gwariant arall o'i gymharu â cyllidebau'r dyfodol yn eithaf sefydlog, a mae unrhyw gynyddiadau yn adlewyrchu newidiadau o ganlyniad i bwysau chwyddiannol.

**CYLLIDEB 2014-15**

10 Er mwyn gosod cyllideb gytbwys, y man cychwyn yw cynnwys ymrwymiadau hysbys megis y cyllid refeniw ar gyfer y rhaglen gyfalaf a chynyddiadau chwyddiannol na ellir eu hosgoi.

11 Am dair blynedd bu cyflogau'r sector cyhoeddus wedi ei rhewi. Erbyn hyn mae'r rhewi hwnnw wedi dod i ben; cafodd diffoddwyr tân 1% o godiad o Orffennaf 2012 ymlaen a chafodd staff eraill godiad o 1% yn Ebrill 2013. Er mwyn ymorol am ddyfarniadau posibl i gyflogau yn 2014-15, mae 1% wedi ei gynnwys yn y gyllideb ar gyfer yr holl weithwyr.

12 Mae rhai llinellau yn y gyllideb wedi eu cynyddu pan fo'n hysbys y bydd cynnydd chwyddiannol e.e. costau ynni, tanwydd, ardrethu annomestig a chytundebau lefel gwasanaeth. Mae llinellau eraill wedi eu cynyddu pan fo newid yn y ddarpariaeth gwasanaethau e.e. costau cefnogol Firelink, newidiadau mewn contractau rhenti llinellau a defnyddio contractwyr allanol ar gyfer cynnal a chadw

cerbydau. Mae llinellau eraill yn y gyllideb wedi eu cadw ar eu lefel gyfredinol, a bydd yn rhaid cwrdd ag unrhyw gynyddiadau chwyddiannol drwy gyfraniad pellach o'r gronfa wrth gefn, ynghyd ag unrhyw gynyddiadau mewn lefelau gweithgarwch. Y cynnydd cyffredinol yw £405k, ac mae £287k ohono ar gyfer cynnydd yn y Ffioedd Dyledion, sy'n adlewyrchu'r gost i'r Awdurdod o gael rhaglen gyfalaf.

13 Mae'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2014-15 yn cynnwys cyfraniad o'r cronfeydd wrth gefn i ymorol am unrhyw gynyddiadau hysbys, gan adael yr awdurdodau cyfansoddol i gwrdd â'r gyllideb sydd ei hangen ar yr un lefel â'r flwyddyn flaenorol. Y cronfeydd hefyd fydd yn cwrdd ag unrhyw bwysau chwyddiannol a chynnydd mewn lefelau gweithgarwch na restrir yn llinellau'r gyllideb.

## CYLLIDEB 2015-16 a 2016-17

14 Er mwyn cynorthwyo gyda'r broses gynllunio, mae'r rhagolygon o ran y gyllideb ar gyfer 2015-16 a 2016-17 wedi eu cynnwys yn yr atodiad i'r adroddiad hwn.

15 Mae ymrwymiadau hysbys wedi eu hymgorffori yn y cyllidebau am y ddwy flynedd, ac maent yn cynnwys costau refeniw uwch cyfalaf ar sail y rhaglen gyfalaf sydd yn atodiad C. Mae dyfarniad cyflog o 1% wedi ei ymgorffori yn y gyllideb am y ddwy flynedd hyn. Mae effaith yr ymrwymiadau hysbys wedi cynyddu'r gyllideb 4.33% yn 2015-16 a 1.99% yn 2016-17. Mae'r cynnydd mawr yn 2015-16 o ganlyniad i symud y cyfraniad o'r gronfa wrth gefn o'r gyllideb sylfaenol, ac mae'n rhoi arwydd i'r Aelodau o gost wirioneddol cynnal lefel y gwasanaethau yn y dyfodol.

16 Mae'r cyllidebau ar gyfer 2015-16 a 2016-17 yn adlewyrchu'r gost o gynnal lefel gyfredol y gwasanaethau. Fel y nodir ym mharagraff 8 uchod, bydd y cyllidebau hyn yn agored i newid yn unol â'r strategaeth y penderfyna'r Aelodau arni yn dilyn adolygiad gan Weithgor y Cynllun Gwella.

## CYFRANIADAU

17 Mae Atodiad B yn nodi'r cyfraniadau dros dro gan yr awdurdodau cyfansoddol ar gyfer 2014-15.

18 Bydd yr Aelodau'n dymuno nodi y defnyddir amcangyfrifon poblogaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer y cyfraniad a'r Grant Cynnal Refeniw, ac felly bydd yr awdurdodau hynny sydd â newid mawr yn yr amcangyfrif poblogaeth yn gweld cynnydd neu ostyngiad yr un mor fawr yn eu cyfraniad, a bydd y newid hefyd wedi ei adlewyrchu yn eu setliad Grant Cynnal Refeniw nhw.

## RHAGLEN GYFALAF

19 Mae'r rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer 2014-15 wedi ei nodi yn Atodiad C ac mae'n £8.575 miliwn. O'r ffigwr hwn, mae £4.078 miliwn ar gyfer cynlluniau newydd a £4.497 miliwn ar gyfer cynlluniau sydd wedi eu cario drosodd o'r blynyddoedd blaenorol megis cynllun Wrecsam a gymeradwywyd yn 2009/10 ond sydd, oherwydd problemau'n gysylltiedig â'r safle, wedi gweld oedi sawl tro. Mae'r gwaith o brynu peiriannau a cherbydau ategol newydd yn mynd ymlaen fel a nodir yn y rhaglen cerbydau newydd. Yn 2013-14 yr alldro a amcangyfrifir ar gyfer gwariant cyfalaf yw £5.754 miliwn, a chynigir ariannu hyn drwy fenthyca a chyfraniad o'r refeniw. Defnyddir rhan o'r tanwariant ar refeniw yn 2013-14 i ariannu'r rhaglen gyfalaf yn yr un flwyddyn. Bydd cyllido cyfalaf yn lleihau'r ffioedd dyledion yn y dyfodol o ganlyniad i'r rhaglen gyfredol a bydd yn gymorth i liniaru cynyddiadau yn y gyllideb yn y blynyddoedd i ddod.

## ARGYMHELLION

20 Argymhellir y canlynol:

(i) bod yr Aelodau'n cymeradwyo cyllideb ddrafft 2014-15;
(ii) bod yr Aelodau'n cadarnhau'r strategaeth i'w dilyn er mwyn cael cyllideb gytbwys ar gyfer 2014-15;
(iii) bod yr Aelodau'n nodi sefyllfa'r gyllideb ar gyfer 2015-16 a 2016-17;
(iv) bod yr awdurdodau cyfansoddol yn cael gwybod beth yw'r cyfraniadau dros dro y bydd eu hangen ar gyfer 2014-15;
(v) cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf ddrafft 2014-15 a'r dulliau cysylltiedig o ariannu.